Eisteddfod Cwm Tawe

Adroddiad Eisteddfod Cwm Tawe 2026

Eisteddfod Cwm Tawe yn gosod ei sylfaeni a chodi'r to!

Ar ddiwrnod olaf mis bach eleni, cynhaliwyd Eisteddfod Cwm Tawe yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe, y tro cyntaf i eisteddfod leol gael ei chynnal yn yr ardal ers nifer fawr o flynyddoedd.

Sefydlwyd yr eisteddfod yn waddol i Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr a ddaeth i siroedd Castell-nedd a Phort Talbot ac Abertawe yn 2025. Gydag Eisteddfod Dur a Môr wedi torri'r record am nifer y cystadleuwyr, ac wedi denu'r nifer uchaf erioed o ddysgwyr i gystadlu, roedd hi'n amlwg fod awch yn lleol am ddigwyddiad o'r fath. Ac fe brofwyd y trefnwyr yn gywir wrth i dros fil o bobl fynychu'r Eisteddfod ym Mhontardawe ar ddiwrnod braf o Wanwyn. Bu raid cynnal rhagbrofion yn yr wythnos flaenorol ar gyfer 5 o'r cystadlaethau cynradd, cymaint oedd yr awch i gystadlu.

Cafwyd 88 o gystadlaethau canu, dawnsio, llefaru, offerynnol a gwaith cartref gyda dros 500 o gystadleuwyr yn cynnwys deuddeg côr neu barti canu, pum parti llefaru a phum parti dawns ar y llwyfan. Cefnogodd ysgolion a disgyblion y cwm yn eu heidiau, gyda 18 ysgol yn cystadlu ar draws yr holl gystadlaethau, a 6 o'r rheini'n rhai cyfrwng Saesneg. Roedd hi'n benderfyniad bwriadol gan y pwyllgor i geisio annog dysgwyr i gymryd rhan yn yr Eisteddfod, ac fe wnaethant, a hynny gyda chryn frwdfrydedd! Daeth Ysgol Bae Baglan i gefnogi gyda'i llefarwyr dawnus ac Ysgol Pentrehafod gyda'i unawdwyr canu hyfryd, er enghraifft. Sefydlodd Ysgol Pentrehafod barti canu o blith staff yr ysgol yn arbennig ar gyfer yr Eisteddfod ac fe lwyddon nhw i gipio'r wobr yng nghategori Côr Dysgwyr gyda datganiad angerddol o *Y Cwm* gan Huw Chiswell.

Roedd nifer fawr o uchafbwyntiau yn ystod y diwrnod, ond dau amlwg oedd gwobrwyo Tlws yr Ifanc er cof am Dafydd Rowlands, archdderwydd a phrifardd, i Erin Hill o Ysgol Gyfun Gŵyr a Thlws yr Artist er cof am yr artist arobryn o'r cwm, Mike Jones, i'r Parchedig Sue Northcott am ei serameg arbennig wedi'i ysbrydoli gan y Mabinogi. Cafwyd cystadleuwyr o bell ac agos yn y gwaith cartref i oedolion gydag enillwyr i'w canfod ym Mhentre'r Eglwys a Bae Colwyn, a phob man rhyngddynt!

Cafwyd anerchiad ysbrydoledig gan Lywydd y Dydd yr Eisteddfod, y digymar Phyl Harries, a fu'n cofio'i brofiadau yntau fel llanc yn aelwyd yr Urdd yr ardal yn cystadlu mewn eisteddfodau. Roedd ei araith yn gyfuniad perffaith o'i ddrygioni a'i hwyl arferol ynghyd â neges bwysig i'r to iau i ddal ati i rannu eu doniau a dilyn eu breuddwydion ac i fanteisio ar bob cyfle y gall eisteddfod ei gynnig. Nododd hefyd fel y bu eisteddfodau'n rhan greiddiol o fagwraeth a datblygiad creadigol Llywyddion Anrhydeddus yr Eisteddfod, sef yr actor, sgriptiwr a'r cyfarwyddwr drama, Lindsay Evans o Glydach, a'r Fonesig Siân Phillips o'r Alltwen, sy'n seren fyd-eang ar sgrîn a llwyfan.

Arweiniwyd y gweithgareddau o'r llwyfan yn ddeheuig tu hwnt eleni gan bedwar o bobl ifanc y cwm sydd wedi mynd yn eu blaenau i ddilyn gyrfaoedd cyffrous y myd y cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus, sef Steffan Huw o Glydach, Nel Richards o Graig Cefn Parc, Steffan Leonard o Dreforys a Sara Dafydd o Graig Cefn Parc. Bu'n ddiwrnod bythgofiadwy gydag awyrgylch gynnes, gefnogol wrth i bawb ddathlu ein doniau lleol a'n diwylliant unigryw ar benwythnos nawddsant Cymru.

Hoffai trefnwyr yr Eisteddfod ddiolch o galon i'r beirniaid a roddodd o'u hamser i gefnogi ein heisteddfod gyntaf, i'n noddwyr hael, i swyddogion Cymdeithas Eisteddfodau Cymru am eu cefnogaeth gydol y daith wrth sefydlu'r eisteddfod hon, ac i bawb sydd wedi ein cefnogi er mwyn sicrhau bod cyfle i drigolion Cwm Tawe fwynhau digwyddiad blynyddol mor gyfoethog ei ddoniau a'i draddodiadau fel hyn.

Dyma rannu'r canlyniadau llwyfan a gwaith cartref ar gyfer Eisteddfod Cwm Tawe 2026!

CANLYNIADAU EISTEDDFOD 2026

CYSTADLAETHAU GWAITH CARTREF – LLENYDDIAETH

BEIRNIAID: Siân Richards, Y Prifardd Robat Powell, Dyfan Lewis, Ivoreen Williams

CYSTADLEUAETH	1af	2il	3ydd
2. Barddoniaeth Bl 4-6	Violet Thomas, YGG Dyffryn y Glowyr	Courtney Rees, YGG Dyffryn y Glowyr	Sophie Evans, YGG Dyffryn y Glowyr
3. Barddoniaeth Bl 7-9	Sara Evans, YGG Ystalyfera	Harri Brown, YGG Ystalyfera	Cadi Davies, YGG Ystalyfera
4. Barddoniaeth Bl 10-13	Erin Hill, YGG Gŵyr		
5. Rhyddiaith Bl 3 ac Iau	Lili Jones-Davies, Pencader		
7. Rhyddiaith Bl 4-6	Owen Morgan, YGG Dyffryn y Glowyr		
9. Rhyddiaith Bl 7-9	Elis Hart, YGG Ystalyfera		
10. Rhyddiaith Ail Iaith Bl 7-11	Ella Williams, Ysgol Pentrehafod		
11. Rhyddiaith Bl 10-13	Osian Davies, YGG Gŵyr	Dafydd Euros, YGG Bryn Tawe a Harvey Southam, YGG Bryn Tawe	Louise Phillips, YGG Bryn Tawe
14. Telyneg	Siw Harston, Middlesex	Siw Harston, Middlesex	Hannah Sams-Jones, Abertawe
15. Cerdd yn y wers rydd (vers libre)	Eryl Samuel, Tongwynlais	Siw Harston, Middlesex	John Meurig Edwards, Aberhonddu
16. Englyn	Huw Dylan Owen, Dolgellau		

17. Limrig	John Meurig Edwards, Aberhonddu	Megan Richards, Aberaeron	Gareth Richards, Craig Cefn Parc
18. Brawddeg	Gwenno Ffrancon, Trebannws	Myfanwy Roberts, Llanrwst	Megan Richards, Aberaeron
19. Triban	John Meurig Edwards, Aberhonddu		
20. Ysgrif neu Stori Fer	Gaenor Mai Jones, Pentre'r Eglwys	John Meurig Edwards, Aberhonddu	
21. Erthygl neu Ysgrif i bapur bro 'Llais'	Gareth Richards, Craig Cefn Parc	Steven Thompson, Rhydyfro	Gaenor Mai Jones, Pentre'r Eglwys
24. Cerdd (Dysgwyr Canolradd ac Uwch)	Ewan Smith, Bae Colwyn		

CYSTADLAETHAU GWAITH CARTREF – CELF

BEIRNIAID: Thomas Rapsey, Esyllt Angharad Lewis, Owain Sparnon, Tomos Sparnon

CYSTADLEUAETH	1af	2il	3ydd
28. Celf 2D Bl 3 ac iau	Myles Porter, YGG Dyffryn y Glowyr	Emrys Longhurst, YGG Tir Deunaw	Mabel Davies, YGG Dyffryn y Glowyr
	Clod: Disgyblion Godre'r Graig Primary		
29. Celf 2D Bl 4 - 6	Thomas Wanner, YGG Gwaun Cae Gurwen	Tate Williams, YGG Tir Deunaw	Darcy James, YGG Tir Deunaw
	Clod: Cian James, YGG Dyffryn y Glowyr		
30. Celf 2D Bl 7 - 9	Sophia May, Ysgol Cefn Hengoed	Tia Brooke Watkins, Ysgol Cefn Hengoed	Fletcher Maddick, Ysgol Cefn Hengoed
32. Celf 2D Oedolion	Teilo Trimble, Yr Alltwen	Freya Guest, Yr Alltwen	Jan Dyer, Clydach

33. Celf 3D Bl 3 ac iau	Arwen Ashby, YGG Dyffryn y Glowyr	Amber Jade, YGG Trebannws	Myles Porter, YGG Dyffryn y Glowyr
34. Celf 3D Bl 4 - 6	Piper Parmenter, YGG Trebannws	Raya Williams, YGG Trebannws	Rosie Baker, YGG Pontardawe
	Clod: Cian James, YGG Dyffryn y Glowyr		
35. Celf 3D Bl 7 - 9	Eowyn Varney, Ysgol Cefn Hengoed	Eva Smith, Ysgol Cefn Hengoed	Max H, Ysgol Cefn Hengoed
	Clod: Eve Sullivan, Ysgol Cefn Hengoed a Magdalena Romanovska, Ysgol Pentrehafod		
37. Celf 3D Oedolion	Sue Northcott, Pontardawe	Nia Richards, Caerdydd	
38. Ffotograffiaeth Bl 3 ac iau	Lottie Williams, YGG Cwmllynfell	Thea Davies, YGG Trebannws	Riley Elsom, YGG Cwmllynfell
39. Ffotograffiaeth Bl 4 - 6	Gwennan Williams, YGG Cwmllynfell	Griff Jones, YGG Cwmllynfell	Harriet King, YGG Cwmllynfell a Regan Knight, YGG Cwmllynfell
40. Ffotograffiaeth Bl 7 - 9	Olivia Harris, Ysgol Cefn Hengoed	Amy Amadi, Ysgol Cefn Hengoed	Sophie Oddy, Ysgol Cefn Hengoed
41. Ffotograffiaeth Bl 10 - 13	Ava Britton, YGG Bryn Tawe	Maïwenn Watson, YGG Bryn Tawe	Dafydd Euros, YGG Bryn Tawe
42. Ffotograffiaeth Oedolion	Gaenor Mai Jones, Pentre'r Eglwys	Trystan Watson, Tir Deunaw ac Angharad Watson, Tir Deunaw	Katherine Eilbeck, Glais
Tlws yr Artist er cof am Mike Jones	Sue Northcott, Pontardawe		

CYSTADLAETHAU CANU

BEIRNIAID: Ffion Hâf, Eleri Davies

CYSTADLEUAETH	1af	2il	3ydd
44. Unawd Canu Bl 3 ac iau	Greta Rumble, YGG Gwaun Cae Gurwen	Mari Rees, YGG Pontardawe	Ioan Phillips, YGG Gwaun Cae Gurwen
45. Unawd Canu Bl 4-6	Emelia Hodges, YGG Pontardawe	Efa Evans, YGG Gwaun Cae Gurwen	Osian Morgan-Davies, YGG Pontardawe
49. Unawd Canu Dysgwyr Bl 7-11	Zainab Miah, Ysgol Pentrehafod	Molly Owen, Ysgol Pentrehafod	
51. Unawd Sioe Gerdd Bl 7-9	Grace Alys Marks, YGG Ystalyfera	Skye Morris, YGG Bryn Tawe	
52. Unawd Alaw Werin Bl 7-9	Branwen Roberts, YGG Ystalyfera		
53. Unawd Alaw Werin Bl 10-13	Maïwenn Watson, YGG Bryn Tawe		
54. Côr Deulais (cynradd)	YGG Pontardawe	YGG Trebannws	YGG Ystalyfera
56. Côr (Bl 13 ac iau)	YGG Bro Dur	YGG Ystalyfera	
58. Unawd dros 18 oed	Trystan Watkins		
59. Unawd i ddysgwyr dros 18 oed	Foo Seng Thean		
60. Parti Canu dros 18 oed	Côr Godre'r Garth		
61. Côr i Ddysgwyr dros 18 oed	Côr Staff Ysgol Pentrehafod	Côr Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	
62. Côr dros 18 oed	Côr Dur a Môr	Côr Godre'r Garth	Côr Tŷ Tawe

CYSTADLAETHAU LLEFARU

BEIRNIAID: Nest Jenkins, Anne Sutton, Siân Sutton

CYSTADLEUAETH	1af	2il	3ydd
63. Llefaru Unigol Bl 3 ac iau	Gwenllian Jones, YGG Dyffryn y Glowyr	Greta Rumble, YGG Gwaun Cae Gurwen	Ioan Philips, YGG Gwaun Cae Gurwen a Mari Rees, YGG Pontardawe
64. Llefaru Unigol Bl 4-6	Emelia Hodges, YGG Pontardawe	Anisa Jones, YGG Pontardawe	Parri Jones, YGG Gwaun Cae Gurwen
65. Llefaru unigol Bl 7-9	Ela Griffiths, YGG Ystalyfera	Huana Mai, YGG Bryn Tawe	
66. Llefaru Unigol Bl 10-13	Harri James, YGG Bryn Tawe		
68. Llefaru i Ddysgwyr Bl 7-11	Amahrae Evans, Ysgol Bae Baglan	Lexi Morgan, Ysgol Bae Baglan	Izzie Joseph, Ysgol Bae Baglan
71. Ymgom Bl 10-13	YGG Bro Dur		
72. Parti Llefaru Bl 7-13	YGG Bryn Tawe 2	YGG Bryn Tawe 1	
73. Parti Llefaru i Ddysgwyr Bl 7-10	Ysgol Bae Baglan 2	Ysgol Bae Baglan 1	
74. Unawd Llefaru dros 18	Nadine Lia Pike		

CYSTADLAETHAU OFFERYNNOL

BEIRNIAD: Carwyn Jones

CYSTADLEUAETH	1af	2il	3ydd
80. Unawd Offerynnol (cynradd)	Isla Thomas, YGG Pontardawe	Cecily Wilkinson, YGG Dyffryn y Glowyr	Ffion Jones, YGG Pontardawe
81. Unawd Offerynnol (agored)	Llywelyn Gannon, YGG Bryn Tawe	Branwen Roberts, YGG Ystalyfera	Mabli Lloyd, YGG Ystalyfera
82. Ensemble Offerynnol	YGG Cwmllynfell		

CYSTADLAETHAU DAWNS

BEIRNIAID: Myfanwy Rees, Rachel Davies

CYSTADLEUAETH	1af	2il	3ydd
85. Grŵp Dawnsio Gwerin (cynradd)	YGG Pontardawe	Dawnswyr y Gelli, YGG Gellionnen a Dawnswyr yr Onnen, YGG Gellionnen	
86. Grŵp Dawnsio Gwerin (agored)	Tawerin	YGG Bro Dur	
88. Dawns Modern	YGG Bro Dur		